Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Dechrau Disglair**

**Heol Bethel**
**Cwm-twrch Isaf**
**Abertawe**
**SA9 2PT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**27 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Dechrau Disglair ym mis Ionawr 2013 i ddarparu gofal dydd llawn. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal i hyd at 81 o blant tair a phedair oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o dair ystafell ddosbarth annibynnol yn Ysgol Dyffryn y Glowyr, Cwm-twrch Isaf. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00am a 3:30pm yn ystod y tymor. Emma Rofe, sef pennaeth yr ysgol yw'r unigolyn cyfrifol ar ran Cyngor Sir Powys, a Susan Hopkins yw'r person â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd. Cymraeg yw prif iaith y gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn elwa ar wasanaeth sydd wedi'i drefnu'n ofalus ac yn canolbwyntio ar y plant. Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu sydd wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r staff yn ofalgar, yn gyson ac yn wybodus. Mae'r amgylchedd yn addas ac yn ddiogel iawn. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda, ond mae angen rhywfaint o welliannau. Mae'r arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni, a gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd iechyd ac addysg i sicrhau y caiff anghenion y plant eu nodi a'u trin yn briodol, er mwyn iddynt gael budd o'r gwasanaeth.

### 2. Gwelliannau

Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, mae'r darparwr wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa staffio i sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn weithiwr ychwanegol.

Yn ystod yr arolygiad hwn, o ganlyniad i gael gwybod nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, mae'r darparwr wedi cymryd camau ar fyrder i wneud y canlynol:

- Diweddaru a darparu copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf sy'n cydymffurfio'n llawn a'r rheoliadau
- Sicrhau a chadarnhau bod holl ffeiliau'r staff yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r darparwr hefyd wedi cadarnhau bod cofnodion goruchwylio ffurfiol ar waith erbyn hyn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion, a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn eu hamgylchedd a gyda'u gofalwyr. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau da sy'n briodol i'w hoedran, maent yn hyderus ac yn datblygu eu sgiliau hunangymorth. Maent yn mwynhau'r cyfleoedd a'r profiadau chwarae a gynigir, ac mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu'n dda.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau, gwrandewir arnynt a chânt eu hannog i siarad a mynegi eu hunain.

Roedd gan y plant lais da ac roedd staff y gwasanaeth yn gwrando arnynt. Gwnaethant symud o un ardal chwarae i'r llall yn hyderus, ac roedd ganddynt ddewis rhydd o deganau a gweithgareddau. Gwelsom fod y plant yn helpu eu hunain i'r adnoddau gan eu bod wedi'u storio ar lefel isel. Clywsom y plant yn gofyn am ragor o ffrwythau neu ddiod yn ystod amser byrbryd, neu am help i agor iogwrt, a chlywsom hefyd blentyn yn dewis peidio â chael bara. Roedd y plant yn gofyn am help, er enghraifft wrth arllwys y llaeth neu wrth wisgo eu cotiau.

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac mae cydberthnasau da rhyngddynt a'r staff. Maent yn symud o gwmpas ac yn dewis gweithgareddau'n hyderus.

Roedd y plant yn hapus ac yn setlo'n gyflym. Gwelsom fod y plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Roedd y plant yn gartrefol, yn hyderus ac wedi ymlacio yng nghwmni eu gofalwyr. Gwelsom fod y plant yn hyderus i fynd at y staff i gael cwtsh, am dawelwch meddwl neu i ofyn am gymorth, er enghraifft wrth fynd i'r toiled. Roedd y plant yn symud yn hyderus o gwmpas yr ardaloedd chwarae ac yn archwilio'r adnoddau a'r gweithgareddau a oedd ar gael. Clywsom chwerthin a sawl wyneb hapus wrth gael eu canmol am wisgo eu cotiau eu hunain neu orffen eu prydau bwyd.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cydweithio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

Roedd y plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Gwelsom fod y plant yn cadw eu hunain yn brysur drwy'r gweithgareddau a oedd ar gael iddynt, ac roeddent yn helpu eu hunain i deganau a oedd ar gael. Gwelsom fod y plant yn cydweithio ac yn cyfathrebu â'i gilydd yn dda wrth iddynt dacluso'r teganau. Roedd y rhan fwyaf o’r plant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau. Gwelsom fod y plant yn cymryd eu tro yn defnyddio'r til yn ardal chwarae rôl y siop, ac yn rhannu anifeiliaid y sw wrth chwarae yn yr hambwrdd â gweithgaredd. Gwelsom fod y plant yn ystyriol o'i gilydd, er enghraifft, clywsom blentyn yn

gofyn, *"have you finished?"* ar ôl cael byrbryd ac yn dal dwylo wrth arwain ei gilydd i'r mat ar gyfer amser stori. Cyn cinio, gwelsom fod y plant yn helpu ei gilydd i estyn sebon er mwyn golchi eu dwylo a helpu ei gilydd i gau sipiau eu cotiau. Roedd ymddygiad y plant yn dda.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Roedd y plant yn awyddus i chwarae ac yn cael budd o gyfleoedd da i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau i chwarae a dysgu.

Roedd y plant yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Roedd ganddynt ddewis o adnoddau ac roeddent yn rhydd i symud o gwmpas yr ardaloedd chwarae a'r gweithgareddau. Gwelsom fod y plant yn cyffroi'n fawr i chwarae yn yr ardal awyr agored. Roedd y plant yn cael hwyl yn gludio secwins a gliter ar ddarn o bapur mawr yn ystod gweithgaredd crefft. Roedd y plant yn mwynhau trafodaeth am y llyfr darllen, roeddent yn holi cwestiynau ac yn ymateb yn frwdfrydig. Roedd y plant yn frwd ac yn awyddus i archwilio a dysgu, yn enwedig wrth y bwrdd 'darganfod' lle roeddent yn defnyddio chwyddwydr i weld cregyn, mes a deunyddiau naturiol. Gwelsom fod y plant yn dyfalbarhau i gwblhau gweithgareddau am gyfnod priodol o amser.

Mae'r plant yn dangos brwdfrydedd ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu yn fawr.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Gall y plant ddewis o amrywiaeth o weithgareddau, sy'n hybu eu sgiliau annibyniaeth a'u datblygiad yn gyffredinol.

Ar y cyfan, roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu a dod yn ddysgwyr annibynnol. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, megis gwneud marciau ac ysgrifennu eu henw ar fwrdd gwyn bach. Siaradodd y plant yn Gymraeg drwy gydol ein hymweliad, hyd yn oed y rhai a oedd yn dysgu. Clywsom y plant yn cyfrif ac yn cwblhau tasgau adnabod lliwiau. Gwelsom fod y plant yn defnyddio'r iPad i gwblhau gweithgaredd cyfrif, a gwnaethant adnabod pryfyn a dewis y swm cywir. Gwyliodd y plant stori ar y bwrdd gwyn gan wrando ar yr iaith ac ailadrodd geiriau. Aeth y plant i'r toiledau'n annibynnol, a gwnaethant olchi eu dwylo a'u sychu o dan y sychwr. Gwelsom y plant yn llenwi jygiau ac yn cymysgu cynhwysion wrth chwarae yn y gegin fwd. Defnyddiodd y plant frws a phadell llwch yn ddigymell i helpu i dacluso'r ardal chwarae, ac aethant a'u gwaith crefft i'r ardal sychu yn annibynnol. Roedd y plant yn bwyta eu prydau bwyd yn annibynnol a gwelsom fod y plant yn gosod y cwpanau mewn un ystafell. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y plant yn cael eu hannog i weini eu diodydd eu hunain nac i glirio'r byrddau ar ôl y prydau bwyd.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau cyffredinol yn dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y staff gydberthnasau cynnes a gofalgar â'r plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ysgogol i'r plant er mwyn hybu eu datblygiad yn gyffredinol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn hybu iechyd a diogelwch y plant yn dda. Maent yn cynnig prydau bwyd iachus ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol.

Roedd y staff yn gyson iawn wrth sicrhau diogelwch y plant a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Roedd diogelu'r plant yn flaenoriaeth, ac roedd y staff yn ymwybodol iawn o'u rôl a'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r plant ac yn glir ynglŷn â beth i'w wneud os oedd ganddynt bryderon. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio 'Epi-pen' pe bai angen, ac roeddent yn ymwybodol o anghenion meddygol y plant. Roedd yr arweinwyr yn dilyn mentrau iachus, megis hylendid y geg, ond ni welsom hyn yn ystod yr ymweliad. Roedd yr arweinwyr yn darparu prydau bwyd sydd wedi'u paratoi'n ffres i'r plant, ac roeddent yn gwbl ymwybodol o anghenion deietegol y plant, neu roedd cyfleoedd i'r plant ddod â phecyn cinio. Gwelsom fod y staff yn dilyn arferion hylendid da, roeddent yn gwisgo dillad gwarchod priodol ar gyfer paratoi prydau bwyd a helpu'r plant fynd i'r toiled. Roeddent yn golchi'r byrddau ac yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo cyn cael bwyd ac ar ôl mynd i'r toiled.

Mae'r staff yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn fodelau rôl da iawn. Maent yn hybu ymddygiad cadarnhaol ac yn rheoli rhyngweithio'n dda iawn.

Roedd y staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda iawn. Gwelsom rai aelodau o'r staff yn ymgysylltu â'r plant, yn sgwrsio â nhw yn barchus ac yn eu canmol bob amser am eu hymdrechion a'u cyflawniadau, megis gwisgo eu cotiau amdanynt eu hunain ac am wrando ar gyfarwyddiadau. Clywsom eiriau megis *“good boy/girl”, “well done” a “fantastic”.* Eisteddodd y staff ar lefel y plant ar y llawr neu wrth y byrddau a defnyddio iaith briodol i gyfathrebu â'r plant yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y staff yn gwneud cyswllt llygad da â'r plant, ac roeddent yn defnyddio lleisiau tawel i annog ac atgyfnerthu ymddygiad da.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn llwyddiannus.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant yn eu gofal. Maent yn trefnu gweithgareddau i hybu datblygiad cyffredinol y plant.

Roedd y staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda, a gwelsom fod y staff yn ymuno yn y chwarae gan arwain at y plant i chwerthin a chael hwyl. Yn ystod y chwarae, prynodd y staff eitemau o'r siop chwarae rôl, gan ddatblygu sgiliau iaith a mathemateg y plant. Gwelsom fod y staff yn rhoi bwcedi llawn dŵr i'r plant a oedd yn brysur yn paentio'r

ffens y tu allan, gan hyrwyddo sgiliau echddygol manwl. Anogwyd y plant i gymryd rhan mewn gweithgaredd paru gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithio. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion y plant, yn deall eu dewisiadau, eu hoff a chas bethau ac roeddent yn caniatáu i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain, gan estyn cymorth yn ôl yr angen. Roedd system gweithwyr allweddol anffurfiol ar waith ac roedd yr arweinwyr yn darparu gofal unigol yn ôl yr angen. Roedd amrywiaeth dda o brofiadau ac adnoddau ar gael i'r plant er mwyn hybu eu datblygiad yn gyffredinol.

Roedd y staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn llwyddiannus.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd chwarae diogel, sy'n ysgogol ac yn ddychmygus iawn. Mae amrywiaeth eang o adnoddau a phrofiadau gwych ar gael iddynt. Mae'r amgylchedd yn addas iawn ar gyfer eu hanghenion, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da ac yn cael ei ddatblygu'n barhaus i hybu archwilio a dysgu.

**Ein canfyddiadau**

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân a bod unrhyw risgiau yn cael eu nodi a'u lleihau neu eu dileu.

Roedd mynedfa'r gwasanaeth yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Mae'r ymwelwyr yn cael mynediad drwy dderbynfa'r ysgol neu fynedfa'r gwasanaeth ei hun. Roedd y staff yn sicrhau bod y giatiau yn ddiogel a bod ffens o amgylch yr ardal. Roedd yr arweinwyr yn cadw cofnod o ymwelwyr yn y dderbynfa. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau ac adolygu asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer pob ardal yn y safle, dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr arweinwyr wedi cyflawni sgôr hylendid bwyd lefel pump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y dyfarniad uchaf. Roedd y cofnodion yn dangos profion blynyddol ar gyfer cyfarpar gwres a thrydanol a bod y staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd i gadw pawb yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol iawn wrth sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu safleoedd rhagorol sy'n ysgogol iawn ac mae'r cynllun yn hybu annibyniaeth y plant yn dda iawn.

Roedd yr ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn groesawgar iawn ac yn darparu amgylchedd ysgogol iawn ar gyfer chwarae, dysgu a datblygu. Roedd digon o ofod a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant, gan gynnwys ardaloedd chwarae amrywiol ar gyfer amser tawel, amser cylch, chwarae wrth y bwrdd, chwarae ar y llawr a chwarae blêr yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Roedd y safle yn hybu annibyniaeth yn dda, er enghraifft gallai'r plant fynd i'r toiled yn rhydd ac yn annibynnol pan roedd angen. Roedd yr adnoddau wedi'u storio ar lefel isel fel y gallai'r plant gael gafael arnynt yn hawdd. Roedd yr arweinwyr yn cadw cofnodion cynllunio a oedd yn dangos bod adnoddau'n cael eu cylchdroi yn unol â themâu gwahanol y gwasanaeth, er mwyn cynnal diddordebau'r plant. Gwelsom y plant yn dewis gweithgareddau ac yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall. Roedd ardal chwarae awyr agored wych, ac roedd yr arweinwyr wedi darparu nifer o deganau, cyfarpar ac ardaloedd arbrofol megis y pwll tywod ac ardaloedd adeiladu a phlannu. Roedd y plant yn cael cyfleoedd rhydd da iawn i archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae yn ddiogel a chael profiadau chwarae corfforol ac awyr iach. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y gallai'r plant ymweld ag ardal coetir yr ysgol hefyd ar gyfer gweithgareddau ysgol y goedwig a'r ardal gemau aml-ddefnydd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon amrywiol. Ni allai'r plant fynd i'r gegin.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae gan y gwasanaeth adnoddau a chyfarpar sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant ac maent o ansawdd da.

Roedd cyflenwad eang o deganau a deunyddiau o ansawdd da ar gael i'r plant a oedd yn addas i'w hanghenion a'u diddordebau. Roedd digon o ddodrefn, cyfarpar a theganau ar gyfer yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Roedd ardal awyr agored wych lle roedd cyfleoedd i'r plant chwarae'n gorfforol, cael awyr iach, a chael profiadau arbrofol. Roedd yr holl ardaloedd, y cyfarpar, y dodrefn a'r teganau'n lân iawn ac mewn cyflwr da iawn, ond, gwelsom fod y cyfarpar awyr agored yn wlyb oherwydd y tywydd, ac ni chafodd y rhain eu sychu cyn eu defnyddio. Gwelsom fod y staff yn sicrhau bod y plant yn myfyrio ar ddiwylliannau a hunaniaethau gwahanol ac yn eu dathlu. Er enghraifft, roedd gwisgoedd gwahanol yn yr ardal gwisgo i fyny, doliau, llyfrau a jig-sos yn cynrychioli hiliau a diwylliannau gwahanol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn dathlu gwyliau amrywiol, megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Santes Dwynwen, Gŵyl Andreas, Dydd Gŵyl Padrig a Dydd Gŵyl Dewi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn darllen straeon o Affrica 'Handa's Surprise', i'r plant er mwyn iddynt ddysgu am wahanol ffyrdd o fyw.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o deganau, adnoddau a deunyddiau o ansawdd da i gefnogi dysgu a datblygiad cyfannol y plant.

# 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i gyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau sy'n ofynnol. Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith ac mae'r staff yn gyfarwydd â nhw. Roedd ganddynt system recriwtio dda ar waith ac mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda. Mae gan yr arweinwyr system hunanwerthuso effeithiol ar waith ac mae ganddynt bartneriaethau da iawn â'r rhieni, yr ysgol a'r asiantaethau, sy'n gwella llesiant y plant. Mae angen rhai gwelliannau yn y maes hwn.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r gwaith o gadw cofnodion yn drefnus ar y cyfan. Mae angen rhai gwelliannau yn y maes hwn.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg a'i drefnu'n dda. Roedd gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben ar waith a oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn dda. Fodd bynnag, nid oedd yn bodloni'r gofynion yn llawn. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr. Roedd cofnodion y plant megis contractau, ffurflenni gwybodaeth a chaniatâd meddygol brys yn gynhwysfawr, wedi'u cwblhau'n llawn ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth yn cael ei storio'n electronig. Roedd yr arweinwyr yn cadw cofnodion damweiniau, ond, nid oedd y rhieni wedi gwrthlofnodi pob cofnod ac nid oedd ffurflenni caniatâd ar gyfer ffotograffau ym mhob ffeil a samplwyd. Dywedodd y staff wrthym eu bod wrthi'n eu diweddaru. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ffotograffau a gymerwyd yn cael eu rhannu ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd. Roedd y systemau ar gyfer monitro datblygiad y plant yn effeithiol. Roedd y staff yn cwblhau cynlluniau datblygu, eu monitro a'u diweddaru pan roedd y plant yn cyflawni eu nodau a'u targedau. Cwblhawyd cofrestr presenoldeb y plant ac roedd cofrestr staff ar waith. Roedd yr arweinwyr wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gofnodi a storio gwybodaeth electronig yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr adolygiad parhaus ar gyfer gwella, sy'n ystyried barn y plant, y rhieni, y staff a'r gweithwyr proffesiynol.

Gwelsom fod yr arweinwyr yn effeithiol wrth hunanwerthuso a nodi meysydd i'w gwella. Roedd gan y gwasanaeth system hunanwerthuso, a oedd yn cynnwys arolygon a blwch awgrymiadau ar gyfer y rhieni a'r plant ac roedd y staff yn cwblhau holiaduron. Roedd yr arweinwyr wrthi'n cwblhau eu hadroddiad o ansawdd y gofal a gwnaethant gytuno i ddarparu copi wedi'i gwblhau i AGC. Rhoddodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol iawn am y gwasanaeth, y staff a'r gofal a roddwyd i'w plant. Mae'r rhieni'n hapus iawn â'r gwasanaeth ac mae eu plant wedi datblygu'n sylweddol drwy fynd yno, yn

eu barn nhw. Dywedwyd wrthym eu bod yn chwarae rhan lawn yn natblygiad eu plant. Roedd holiaduron y rhieni'n nodi, *‘lovely and friendly setting’, ‘teachers always happy to address any concern and help’* a *‘we couldn’t be happier with the care and education that is offered in the setting’, ‘the staff are brilliant and are always approachable and happy to help’, ‘a wonderful setting that would recommend to anyone’, ‘the vocab sheet sent home was linked to the topic was very useful’*. *‘We are extremely grateful for the help and support you have all given… she has made tremendous strides thank to your patience and encouragement’.*

Mae'r arweinwyr yn effeithiol o ran y gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella, sydd o fudd i'r plant, y rhieni a'r staff.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn ffordd drefnus ar y cyfan ac maent yn hybu datblygiad y staff.

Roedd gan yr arweinwyr system recriwtio eithaf cadarn. Roedd ffeiliau'r staff a samplwyd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd dwy ffeil yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau am nad oeddent yn cynnwys geirdaon, ac nid oedd un yn cynnwys CV. Roedd yr arweinwyr yn cymryd camau gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn a rhoddwyd tystiolaeth o addasrwydd y staff. Roedd arfarniadau blynyddol y staff wedi cael eu cynnal a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod problemau a chwblhau hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad personol. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cynnal sesiynau goruchwylio staff ond nad oeddent yn cadw cofnod ffurfiol ohonynt. Roedd yr arweinwyr yn cyflogi naw aelod o staff, ond dywedwyd wrthym mai dim ond dau oedd â chontractau parhaol. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod staff yr ysgol yn cyflenwi pan fydd y gwasanaeth yn brin o staff, ar adegau brys dros dro. Roedd y staff yn gymwys i'r lefelau sy'n ofynnol, ac allan o'r naw aelod o staff a gyflogir, roedd gan wyth ohonynt dystysgrifau cymorth cyntaf dilys; roedd tri wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac roedd gan bedwar ohonynt dystysgrif hylendid bwyd. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr arweinwyr yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r staff yn ogystal â hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion plant unigol, megis nifer o gyrsiau hyfforddi Clwstwr y Cyfnod Sylfaen, Datblygiad Plant gan gynnwys Dysgu Awyr Agored, Ysgolion Coedwig, noson wybodaeth ar Ansawdd y Gofal, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, hyfforddiant ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, a 'Cyfnodau hyfforddi' drwy gyngor Powys. Roedd yr arweinwyr yn bodloni'r gyfradd staff i blant yn ystod yr arolygiad.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau eraill yn effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr a'r staff gydberthnasau da iawn â'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol, sydd o fudd i'r plant. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol.

Roedd yr arweinwyr yn rhoi gwybodaeth ar lafar ac ysgrifenedig i'r rhieni am ddatblygiad eu plentyn. Clywsom y staff a'r rhieni yn rhannu gwybodaeth wrth gasglu a gollwng eu plant. Rhoddodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol iawn am y gofal mae eu plentyn yn ei gael a'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth a'r ffordd roedd eu plentyn wedi datblygu. Dywedodd y rhieni wrthym, *“she skips in everyday”* a *“the staff are very approachable”* a *“she loves it here”*. Nid oedd

ganddynt unrhyw broblemau i'w codi ond gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i wneud hynny petai angen gwneud hynny.  Mae pwyslais cadarn ar feithrin cydberthnasau rhwng y rhieni a'r gofalwyr, gan gynnal nosweithiau setlo, nosweithiau trafod targedau, cyfarfodydd datblygu a nosweithiau agored i'r rhieni newydd.  Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi mynd â'r plant ar daith i Graig y Nos i ddysgu am fywyd gwyllt a cherddoriaeth a sesiwn symud, i reilffordd mynydd Aberhonddu, Sunnybridge i gasglu mefus ac i sioe Cyw.  Maent hefyd wedi ymweld â'r siop goffi lleol a'r llyfrgell ar gyfer amser stori.  Mae plant wedi ymweld â'r archfarchnad leol i ddysgu am 'o'r fferm i'r fforc' lle maent yn dysgu o ble mae llysiau a ffrwythau'n dod ac yn cyflawni rhai gweithgareddau. Maent wedi gwahodd y gwasanaeth tân, yr heddlu ac ymwelydd iechyd i'r gwasanaeth yn flaenorol.  Roeddent hefyd yn gweithio'n agos iawn â'r ysgol ac asiantaethau amrywiol, megis Tîm o Amgylch y Teulu yr awdurdod lleol, ffisiotherapi, a therapyddion iaith a lleferydd i helpu'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi codi arian ar gyfer cyfarpar newydd drwy weithgareddau a digwyddiadau a noddir, megis casglu arian mewn bocsys bach ar gyfer losin, boreau coffi, teithiau cerdded Corrach a barbiciw.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau llwyddiannus.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- Annog annibyniaeth plant ymhellach yn ystod amser byrbryd;
- cynnal gwiriad gweledol o'r cyfarpar awyr agored cyn eu defnyddio;
- archwilio'r cofnodion damweiniau i sicrhau bod y rhieni yn eu gwrthlofnodi, a bod ffurflenni caniatâd ar gyfer ffotograffau yn ffeil pob plentyn a
- rhoi copi o adroddiad ar ansawdd y gofal diweddaraf i AGC o fewn 28 diwrnod ar ôl ei gwblhau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd dau arolygydd â'r gwasanaeth ar 4 Chwefror 2019 am tua 6 awr. Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion;
- siarad â'r plant, rhai rhieni a'r staff;
- rhoi adborth manwl dros y ffôn i'r unigolyn cyfrifol, y person â chyfrifoldeb a'r arweinydd ar 6 Chwefror 2019.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Emma-Wynne Rofe |
| Person â chyfrifoldeb | Susan Hopkins |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 81 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng tair a phedair oed |
| Oriau agor | O ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9:00am a 3:30pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 a 14 Gorffennaf 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 4 Chwefror 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |